**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf: HIDCC/PO/0314/24

Paul Davies AS
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru, Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru

11 Tachwedd 2024

Annwyl Paul

Diolch am eich llythyr ar 9 Awst a hoffwn ymddiheuro yn ddiffuant am yr oedi cyn ymateb.

Ymatebais yn ddiweddar i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a all ddarparu diweddariad mwy cynhwysfawr ond meddyliais ei bod yn briodol ymateb i'r adborth a gawsoch yn y Sioe Fawr ynghylch Gweithgorau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) a'r Panel Adolygu Tystiolaeth ar Ddal Carbon.

Fe wnaethon ni sefydlu tri Gweithgor Rhanddeiliaid i'n helpu i ddatblygu'r SFS, yn ymdrin â thenantiaethau, tir comin a sut i gynnwys ffermwyr newydd ac ifanc yn y Cynllun yn y dyfodol.

Pwrpas y gweithgorau oedd helpu swyddogion Llywodraeth Cymru i roi sylw i'r ystyriaethau pwysig hyn wrth ddylunio Cynllun. Roedd cyfraniad y gweithgorau hyn yn bwysig at lunio'r ymgynghoriad Cynllun Ffermio Cynaliadwy - Cadw ffermwyr yn ffermio a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023.

Mae tenantiaethau, tir comin a newydd-ddyfodiaid yn dal i fod yn rhannau pwysig o'r SFS ac chawsant eu hystyried gan y Ford Gron Weinidogol a Grwpiau Swyddogion. Mae'r holl randdeiliaid allweddol sydd â diddordeb yn y meysydd hyn yn aelodau o'r grwpiau hyn. Rwy'n ddiolchgar i aelodau'r gweithgorau am eu gwaith ac i'r rhanddeiliaid am eu hymrwymiad cadarnhaol yn y trafodaethau presennol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Pennir gwaith y Panel Adolygu Tystiolaeth ar Ddal Carbon yn ei Gylch Gorchwyl. Y Ford Gron Weinidogol oedd yn gyfrifol am ei ddatblygu ac am gytuno arno. Aelodau’r Panel sydd bellach yn arwain y gwaith a Llywodraeth Cymru sy'n darparu'r ysgrifenyddiaeth a'r mecanwaith cymorth. Mae gwaith y Panel wedi mynd rhagddo'n dda, ond mae'r amserlen yn dynn gan fod angen i'r gwaith gadw o fewn y llinell amser ehangach ar gyfer dylunio'r cynllun. Fel ymateb i hynny, cefais hyd i amser ychwanegol i'r Panel allu adolygu'r dystiolaeth, a diweddarwyd y Cylch Gwaith.

Nid oes unrhyw gyfyngiadau yn y Cylch Gwaith heblaw bod angen cadw o fewn cwmpas Gweithredoedd ychwanegol neu newydd sydd â photensial i ddal a storio carbon fel rhan o'r SFS. Nid wy'n gwybod am unrhyw bryderon ynghylch pa arbenigwyr y cysylltwyd a hwy i helpu'r Panel gyda'i adolygiad.

Rwy'n dal i fod yn argyhoeddedig bod angen gweithio mewn partneriaeth fel hyn i helpu i gwblhau dylunio'r SFS er mwyn iddo allu dechrau yn 2026.  Rwy'n hynod ddiolchgar am ymdrechion pawb i gadw at yr amserlen anodd hon, hynny ar ben eu hymrwymiadau busnes a phersonol.

Byddaf yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau’r Pwyllgor ar hynt y gwaith wrth i’r cam hwn ddirwyn i ben.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs